*This document is available in English* **Eitem ar yr agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **29 Gorffennaf 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Shân Morris, Prif Swyddog Cynorthwyol (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad Ebrill – Mehefin 2019** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Darparu gwybodaeth i'r Aelodau am weithgareddau Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a'i berfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella.

**CRYNODEB**

2 Yn ystod chwarter cyntaf 2019/20, aeth y Gwasanaeth at 1,328 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen – sef 11% yn llai nag yn yr un chwarter y llynedd.

3 Parhaodd y tueddiad am i lawr yn nifer y prif danau, ac effeithiodd y tywydd gwlyb ar ostyngiad yn nifer y tanau eilaidd.

4 Fe wnaeth niferoedd y galwadau diangen barhau i gynyddu, a hynny oherwydd cynnydd yn nifer y galwadau diangen didwyll.

5 Cafwyd cynnydd o ddeg (23%) yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd yr aethpwyd atynt, o'i gymharu â'r un cyfnod o dri mis y llynedd.

6 Cafwyd 18 yn fwy o danau damweiniol mewn cartrefi nag yn yr un chwarter y llynedd, ac arweiniodd hynny at un farwolaeth (i'w chadarnhau gan y Crwner), dau anaf difrifol, a 10 o fân anafiadau. Fe wnaeth nifer yr archwiliadau rhagofalus fwy na dyblu, o 5 i 12.

**ARGYMHELLIAD**

7 Bod yr aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

**GWYBODAETH**

8 Yn Atodiad 1, er gwybodaeth i'r aelodau, mae'r adroddiad monitro am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 30 Mehefin 2019 (Chwarter 1).

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Cymorth i'r Awdurdod fonitro ei berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant sydd yn y cynllun cyfunol ar gyfer gwella a llesiant 2019/20. |
| Cyllideb | Cymorth i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posibl ar y gyllideb oherwydd lefel annisgwyl o ddigwyddiadau. |
| Cyfreithiol | Cymorth i'r Awdurdod sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y gofynion newidiol arno gyda newidiadau yn y lefel y digwyddiadau. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Peidio â bodloni gofynion cyfreithiol i adrodd ynghylch perfformiad a monitro perfformiad, a allai effeithio ar y gallu i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y gofyn. |

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

**CHWARTER 1**
**Ebrill 2019 – Mehefin 2019**

**Ffigyrau dros dro ydynt, a gallent fod yn agored i fân newidiadau.**


## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **ADRODD YNGHYLCH GWEITHGARWCH DIGWYDDIADAU** | |
| **YR HOLL DDIGWYDDIADAU** | |
| Trosolwg o'r holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt | 1 |
| | |
| **TANAU YN ÔL CATEGORI** | |
| Tanau yn ôl categori (prif danau, tanau eilaidd, tanau simnai) | 2 |
| Tanau yn ôl cymhelliad (damweiniol/bwriadol) | 3 |
| Tanau yn yr Awyr Agored | 4 |
| | |
| **GALWADAU DIANGEN** | |
| Galwadau Diangen yn ôl categori (larymau tân awtomatig, didwyll, maleisus) | 5 |
| | |
| **DIGWYDDIADAU GWASANAETH ARBENNIG** | |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig yn ôl categori | 6 |
| | |
| **MONITRO O GYMHARU AG AMCAN GWELLA A LLESIANT 'A'** | |
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 7 |
| Marwolaethau ac anafusion oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 8 |
| Natur yr anaf | 9 |
| | |
| **GEIRFA** | 10 |

## 1.0 Yr Holl Ddigwyddiadau

1.1 Aeth y Gwasanaeth at gyfanswm o 1,328 o ddigwyddiadau brys (tanau, galwadau diangen a digwyddiadau gwasanaeth arbennig) yng Ngogledd Cymru yn ystod chwarter cyntaf 2019/20. Roedd hyn 11% yn llai o ddigwyddiadau nag yn yr un cyfnod yn 2018/19, ac roedd yn llai na'r cyfartaledd tair blynedd.

**Siart 1. Nifer y tanau, galwadau diangen a digwyddiadau gwasanaeth arbennig yr aethpwyd atynt, gyda'r cyfartaledd 3 blynedd**




## 2.0 Tanau, yn ôl categori

2.1 Tanau oedd 584 (44%) o'r digwyddiadau brys yr aethwyd atynt yn ystod y chwarter cyntaf. O'r tanau hynny, roedd 236 (40%) yn brif danau, 319 (55%) yn danau eilaidd, a 29 (5%) yn danau simnai.

2.2 Yn y chwarter hwn, parhaodd y tueddiad graddol am i lawr yn nifer y prif danau yr aethpwyd atynt, ac aethpwyd at 15 (6%) yn llai o brif danau nag yn yr un chwarter y llynedd.

2.3 Mae nifer y tanau eilaidd yn amrywio fwy oherwydd maent yn gysylltiedig ag amodau'r tywydd; mae effaith y tywydd gwlyb yn ystod y chwarter cyntaf eleni i'w weld yn yr 13% o ostyngiad yn nifer y tanau eilaidd o'i gymharu ag yn yr un chwarter y llynedd.

**Siart 2. Nifer y tanau yr aethpwyd atynt, fesul categori, gyda'r cyfartaledd 3 blynedd**




| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| TANAU SIMDDE | 40 | 34 | 27 | 27 | 29 | 29 |
| PRIF DANAU | 277 | 255 | 242 | 251 | 236 | 249 |
| TANAU EILAIDD | 357 | 249 | 368 | 367 | 319 | 328 |


## 3.0 Tanau, yn ôl cymhelliad

3.1 Mae canran y prif danau a gafodd eu cynnau'n ddamweiniol wedi pharhau'n gyson yn y blynyddoedd diwethaf (mymryn dros 82% mewn tair o'r pum mlynedd ddiwethaf), ac roedd y prif danau bwriadol yn lleiafrif bob blwyddyn.

3.2 Fodd bynnag, mae canrannau cymharol y tanau eilaidd yn wahanol. Roedd chwarter cyntaf eleni yn un anghyffredin oherwydd roedd y rhan fwyaf o'r tanau eilaidd yn rhai yr amheuir eu bod wedi cael eu cynnau'n fwriadol. Yn yr un chwarter yn y tair blynedd flaenorol, cofnodwyd bod mymryn dros 40% o'r tanau yn rhai bwriadol, ond eleni cofnodwyd bod 52% ohonynt yn rhai bwriadol.

3.3 Trwy ddiffiniad, tanau damweiniol yw tanau simnai, felly nid ydynt yn cael eu dangos yn Siart 3 isod.


**Siart 3. Nifer y prif danau a'r tanau eilaidd yr aethpwyd atynt, yn ôl cymhelliad**



## 4.0 Tanau yn yr Awyr Agored

4.1 Mae'r rhan fwyaf o danau awyr agored yn cael eu cofnodi fel tanau eilaidd. Yn ystod chwarter cyntaf 2019/20, tanau glaswelltir, coetir a chnydau oedd 42% o'r holl danau awyr agored, ac roedd y gweddill yn digwydd mewn: lleoliadau eraill yn yr awyr agored (34%); strwythurau yn yr awyr agored (22%); a chyfarpar a pheirianwaith yn yr awyr agored (1%).

**Siart 4. Nifer y tanau glaswelltir, coetir a chnydau fel cyfran o'r holl danau yn yr aethpwyd atynt yn yr awyr agored**




## 5.0 Galwadau Diangen

5.1 Mae niferoedd cyffredinol y galwadau diangen yn parhau'n is na'r cyfnod cyn cyflwyno'r polisi ar Larymau Tân Awtomatig (a ddaeth i rym yn Ebrill 2015), ond maent yn parhau i gynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn.

5.2 Roedd y cyfanswm yr aethpwyd atynt yn ystod chwarter cyntaf 2019/20 (573) yn cynnwys 50% (288) oherwydd larymau tân awtomatig, 48% (273) oherwydd galwadau didwyll a'r 2% arall (12) oherwydd galwadau maleisus.

**Siart 5. Nifer y galwadau diangen yr aethpwyd atynt, yn ôl categori**




| | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Larymau Tân Awtomatig | 451 | 238 | 274 | 262 | 295 | 288 | 277 |
| Didwyll | 303 | 235 | 215 | 250 | 260 | 273 | 242 |
| Maleisus | 26 | 11 | 11 | 9 | 10 | 12 | 10 |
| Cyfanswm | 780 | 484 | 500 | 521 | 565 | 573 | 529 |


## 6.0 Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig

6.1 Ni chafwyd fawr o newid yn y blynyddoedd diweddar yn niferoedd yr argyfyngau a gofnodwyd yn 'ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig a oedd yn wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd' neu yn y mathau sefydledig o 'ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig heblaw gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd'. Yn chwarter cyntaf y flwyddyn, aeth y Gwasanaeth at 10 (23%) yn fwy o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd nag yn yr un chwarter y llynedd.

6.2 Yn y categori 'heblaw gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd', ond wedi'i dangos ar wahân isod, mae'r mentrau cydweithredol sydd wedi cael eu treialu yn fwy diweddar. Roedd y rhain yn cynnwys mentrau fel y 'Tîm Cymorth Cymunedol' a'r fenter 'Cyd-Ymateb' gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, yn ogystal ag 'Ar Goll o Gartref' a 'Dulliau Mynediad' a gynhelir ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru.

6.3 Mae'r 'Tîm Cymorth Cymunedol' a'r cynllun 'Cyd-Ymateb' wedi dod i ben, ond yn chwarter cyntaf y flwyddyn gwelwyd cyfansymiau cyntaf y 'Dulliau Mynediad' ochr yn ochr â rhai 'Ar Goll o Gartref, sydd yn eu trydedd flwyddyn erbyn hyn.

**Siart 6. Nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig, yn ôl categori**





| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Digwyddiad Meddygol - Cyd-ymatebwr | | 18 | 58 | | |
| Ar goll o Gartref | | | 8 | 11 | 3 |
| Dulliau Mynediad | | | | | 12 |
| Tîm Cynorthwyo Cymunedol - helpu hefo codymau | | | 154 | 120 | |
| GTFf | 42 | 48 | 42 | 43 | 53 |
| Arall heblaw GTFf (ddim yn cynnwys prosiectau) | 96 | 117 | 99 | 104 | 103 |

**7.0 Monitro mewn perthynas ag Amcan Gwella a Llesiant A:** *Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac aros yn ddiogel os yw tanau o'r fath yn digwydd.*

7.1 Fe wnaeth nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi ostwng yn 2018/19 i'r lefel isaf a gofnodwyd erioed yng Ngogledd Cymru. Er hynny, yn chwarter cyntaf 2019/20 aeth y Gwasanaeth at 18 (14%) yn fwy o danau damweiniol mewn cartrefi nag yn un chwarter y llynedd, yn groes i'r tueddiad hirdymor am i lawr.

**Siart 7. Nifer y tanau mewn cartrefi yr aethpwyd atynt, yn ôl cymhelliad**





| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Tân (Damweiniol) | 106 | 103 | 89 | 84 | 98 | 92 |
| Tân (Bwriadol) | 11 | 5 | 11 | 6 | 9 | 7 |

## 8.0 Anafusion oherwydd Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

8.1 Yn chwarter cyntaf 2019/20, cofnodwyd un farwolaeth mewn tân damweiniol mewn cartrefi yng Ngogledd Cymru (gan aros cadarnhad gan y Crwner), o'i gymharu â dwy farwolaeth yn yr un cyfnod yn 2018/19.

8.2 Cafwyd cynnydd bach yn nifer yr anafiadau difrifol (2) a'r mân anafiadau (3) oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi, ond cafwyd mwy o gynnydd (7) yn nifer y bobl a gafodd naill ai archwiliad rhagofalus neu a gafodd eu cynghori i weld meddyg rhag ofn.

**Siart 8. Nifer y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi**





| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|
| Marwolaeth | 0 | 1 | 0 | 2 | 1 |
| Anafiadau - bychan | 15 | 2 | 13 | 7 | 10 |
| Anafiadau - difrifol | 2 | 2 | 2 | 0 | 2 |
| Archwiliad rhagofalus | 16 | 17 | 5 | 5 | 12 |
| Cymorth cyntaf | 14 | 4 | 5 | 7 | 8 |

## 9.0 Natur yr anaf

9.1 Bob blwyddyn, yr anaf mwyaf cyffredin yw 'wedi eu llethu gan nwy, mwg neu fygdarthau gwenwynig; mygu'. Yn ystod chwarter cyntaf 2019/20, cofnodwyd bod 25 o bobl yn y categori hwn o'i gymharu ag 13 yn yr un cyfnod yn 2018/19.

**Siart 9. Natur yr anafiadau mewn tanau damweiniol mewn cartrefi**



**Geirfa**

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn cael ei roi mewn un o dri chategori, sef prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif Danau | Dyma danau nad ydynt yn danau simnai, ac sydd yn digwydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, gweithfeydd a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli, ayyb.<br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion, achub neu ddianc, felly hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pum neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau.<br>Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br>Fel arfer, tanau eilaidd yw'r rhai sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif dân), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb. |
| Tanau Simnai | Dyma danau mewn adeiladau wedi eu meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br>Nid yw tanau simnai'n cynnwys anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Galwadau Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:<br>a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb;<br>d) Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau. |
| Galwadau diangen (cyfarwyddyd cyffredinol) | Pan fo'r GTA yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.<br>Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |
| Galwadau diangen – Maleisus | Dyma alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y GTA i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys rhai bwriadol a lle amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau diangen – Didwyll | Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y GTA yn wir yn mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |
| Galwadau diangen – systemau awtomatig | Dyma alwadau a ddaw gan larwm mwg ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fod larwm yn canu a rhywun yn galw'r GTA fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad). |